# Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

# SoNarR2020 Cofrestru Ôl-troed Byd-eang Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

# Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

# Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy’r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith tystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein tystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein tystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNarR2020 Cofrestru Ôl-troed Byd-eang Cymru**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

# Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae’r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

**Crynodeb Gweithredol.** Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

**Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol.** Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

**Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwyliedig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

**Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Ôl-troed byd-eang Cymru Cofrestr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

**Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol**. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

**Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Acronymau a Rhestr Termau.** Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

**Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:**

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNarR2020 Cofrestru Ôl-troed Byd-eang Cymru. Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Hawlfreintiau**

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan drwydded Llywodraeth Agored

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordnans.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

# Ôl-troed Byd-eang Cymru Cofrestr

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

## Cylch gwaith

Fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), 'Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi adroddiadau ... sy'n cynnwys ei asesiad o gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru.' Yna bydd cylch gwaith SoNaRR yn ymdrin ag adnoddau naturiol yng Nghymru, yn ogystal ag adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru ac felly ein defnydd o adnoddau naturiol byd-eang.

## Trosolwg

Pe baii pawb ar y Ddaear yn defnyddio adnoddau naturiol ar yr un gyfradd ag yng Nghymru, byddai angen 2.5 planed. Mae'r gor-ddefnydd hwn o adnoddau naturiol yn rhoi straen ar ecosystemau yng Nghymru ac ar draws y byd (Llywodraeth Cymru, 2015).

Mae'r lefelau defnydd presennol yng Nghymru yn anghynaladwy ac yn arwain at y canlynol:

- disbyddu adnoddau naturiol yn gyflymach nag y gellir eu hailgyflenwi, a
- gormodiant ar allu'r blaned i amsugno gwastraff ein cymdeithas (Llywodraeth Cymru, 2015).

Mae Cymru yn cyfrannu at ormodiant ar fiogapasiti y Ddaear ac yn defnyddio mwy na'i chyfran deg o adnoddau naturiol y Ddaear.

Er mwyn cyflawni'r nod llesiant o 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang', mae angen deall yn well yr effaith y mae Cymru yn ei chael dramor. Mae'r gofrestr hon yn dwyn ynghyd y wybodaeth sydd ar gael am effaith fyd-eang defnydd anghynaliadwy Cymru o adnoddau naturiol.

Rydym yn gweithio i adeiladu gwell dealltwriaeth o effaith fyd-eang Cymru ar gyfer adroddiad SoNaR. Rydym wedi llunio cipolwg cyfredol o'r wybodaeth sydd ar gael ar ôl troed byd-eang Cymru yn y ddau dabl isod.

Mae'r tablau a'r ffigurau isod yn nodi'r wybodaeth, a drefnwyd gan restr defnydd Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at ôl troed ecolegol Cymru (Tabl 1,Ffigur 1) a rhestr Llywodraeth Cymru o fathau o dir sy'n cyfrannu at ôl troed ecolegol Cymru (Tabl 2,Ffigur 2).


Tabl 1  Yr ysgogwyr anuniongyrchol i newidiadau a gweithgareddau dynol yn ôl defnydd sy'n digwydd yng Nghymru a'r ysgogwyr uniongyrchol i newid a'r pwysau y maent yn eu hachosi yng Nghymru a gwledydd eraill.

| Ysgogwyr i newidiadau anuniongyrchol | Gweithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan ddefnydd yng Nghymru | Ysgogwyr uniongyrchol i newidiadau a phwysau |
|---|---|---|
| Economaidd a thechnolegol | 1. Tai - allyriadau tanwydd o ddefnydd ynni cartref uniongyrchol ar gyfer gwres, dŵr poeth, goleuadau ac offer trydanol, yn ogystal â'r effaith o gynnal a chadw cartrefi ac o adeiladu cartrefi. | 1.1 Yn cyfrif am 20% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru a'r pwysau sy'n deillio o hynny.<br>1.2 Yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd sy'n cynhyrchu pwysau fel patrymau tywydd newidiol, asideiddio yn y môr, tymheredd y dŵr yn codi.<br>1.3 Yn cyfrannu at orecsbloetio sy'n cynhyrchu pwysau ar y galw am ddŵr a dwysáu amaethyddol.<br>1.4 Yn cyfrannu at newid defnydd tir sy'n cynhyrchu pwysau fel rheolaeth annigonol, defnydd tir cystadleuol, dwysáu amaethyddol.<br>1.5 Y defnydd o CO2 yn gyfwerth â 11.11 tunnell o CO2e y pen (Oxfam, 2020).<br>1.6 Gormodiant uwchlaw'r trothwy byd-eang o 455% (Oxfam, 2020) gan arwain at effeithiau amgylcheddol. |
| Demograffig a chymdeithasol-ddiwylliannol | 2. Bwyd - bwyd a diod sy'n cael ei fwyta gan aelwydydd ac mewn bwytai a siopau tecawê. | 2.1 Yn cyfrif am 28% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru<br>2.2 Yn cyfrannu at newid defnydd tir, fel rheolaeth annigonol, defnydd tir cystadleuol, dwysáu amaethyddol.<br>2.3 Yn cyfrannu at lygredd sy'n cynhyrchu pwysau fel llygredd dŵr a llygredd tir.<br>2.4 Yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd sy'n cynhyrchu pwysau fel newid ym mhatrymau'r tywydd, asideiddio yn y môr, tymheredd y dŵr yn codi. |

| Ysgogwyr i newidiadau anuniongyrchol | Gweithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan ddefnydd yng Nghymru | Ysgogwyr uniongyrchol i newidiadau a phwysau |
|---|---|---|
| Economaidd a thechnolegol | 3. Trafnidiaeth - allyriadau tanwydd o deithio personol mewn cerbydau cyhoeddus a phreifat, yn ogystal â'r effaith o gynnal a chadw cerbydau, prynu cerbydau newydd ac adeiladu'r seilwaith trafnidiaeth. | 3.1 Yn cyfrif am 11% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br><br>3.2 Yn cyfrannu at lygredd sy'n cynhyrchu pwysau fel llygredd dŵr a llygredd tir.<br><br>3.3 Yn cyfrannu at newid defnydd tir sy'n cynhyrchu pwysau fel datblygu a seilwaith adeiledig.<br><br>3.4 Yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd sy'n cynhyrchu pwysau fel newid ym mhatrymau'r tywydd, asideiddio yn y môr, tymheredd y dŵr yn codi.<br><br>3.5 Crynodiad PM10 ar gyfartaledd yw 10mg/m3 (Oxfam, 2020) |
| Demograffig a chymdeithasol-ddiwylliannol | 4. Gwasanaethau preifat - holl wasanaethau'r sector preifat yn amrywio o adloniant i rai ariannol. | 4.1 Yn cyfrif am 11% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru<br>4.2 Yn cyfrannu at newid defnydd tir sy'n cynhyrchu pwysau fel datblygu a seilwaith adeiledig, defnydd tir cystadleuol, mynediad heb ei reoli, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.<br>4.3 Yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd sy'n cynhyrchu pwysau fel newid ym mhatrymau'r tywydd, asideiddio yn y môr, tymheredd y dŵr yn codi. |
| Economaidd a thechnolegol | 5. Eitemau defnyddwyr - cynhyrchu'r holl gynhyrchion a brynir gan aelwydydd, o bapurau newydd i offer. | 5.1 Yn cyfrif am 8% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br><br>5.2 Yn cyfrannu at newid defnydd tir sy'n cynhyrchu pwysau fel datblygu a seilwaith adeiledig, defnydd tir cystadleuol, dwysáu amaethyddol.<br><br>5.3 Yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd sy'n cynhyrchu pwysau fel newid ym mhatrymau'r tywydd, asideiddio yn y môr, tymheredd y dŵr yn codi. |

| Ysgogwyr i newidiadau anuniongyrchol | Gweithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan ddefnydd yng Nghymru | Ysgogwyr uniongyrchol i newidiadau a phwysau |
|---|---|---|
| Sefydliadau a llywodraethu | 6. Gwasanaethau cyhoeddus - yr holl wasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus yn amrywio o addysg a gofal iechyd i garthffosiaeth a gwaredu gwastraff. | 6.1 Yn cyfrif am 8% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br><br>6.2 Yn cyfrannu at newid defnydd tir sy'n cynhyrchu pwysau fel datblygu a seilwaith adeiledig, defnydd tir cystadleuol, mynediad heb ei reoli, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.<br><br>6.3 Yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd sy'n cynhyrchu pwysau fel newid ym mhatrymau'r tywydd, asideiddio yn y môr, tymheredd y dŵr yn codi. |
| Demograffig a chymdeithasol-ddiwylliannol | 7. Arall - mae hyn yn cynnwys agweddau eraill ar brynu neu wariant sydd wedi'u cynnwys mewn cyfrifon cenedlaethol, megis ffurfio cyfalaf sefydlog gros neu sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu cartrefi. | 7.1 Yn cyfrif am 14% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br><br>7.2 Yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd sy'n cynhyrchu pwysau fel newid ym mhatrymau'r tywydd, asideiddio yn y môr, tymheredd y dŵr yn codi. |

Noder: Mae'r gweithgareddau dynol yn y tabl hwn yn deillio o restr Llywodraeth Cymru o themâu defnydd sy'n cyfrannu at ôl troed ecolegol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).





Ffigur 1 Ôl-troed ecolegol Cymru yn ôl thema defnydd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015)

Tabl 2  Ysgogwyr anuniongyrchol i newidiadau a gweithgareddau dynol yn ôl mathau o dir yng Nghymru a'r ysgogwyr uniongyrchol i newid a phwysau y maent yn eu hachosi yng Nghymru a gwledydd eraill.

| Ysgogwyr i newidiadau anuniongyrchol | Gweithgareddau dynol yn ôl mathau o dir | Ysgogwyr uniongyrchol i newidiadau a phwysau |
|---|---|---|
| Economaidd a thechnolegol | 1. Tir carbon - tir a môr sy'n angenrheidiol i atafaelu allyriadau CO2, trwy ffotosynthesis | 1.1 Mae'n cyfrif am 63% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br>1.2 Yn cyfrannu at newid defnydd tir sy'n cynhyrchu pwysau fel datblygu a seilwaith adeiledig, cystadlu defnydd tir. |
| Demograffig a chymdeithasol-ddiwylliannol | 2. Tir dan gnwd - tir sydd ei angen i gynhyrchu cnydau | 2.1 Mae'n cyfrif am 18% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br>2.2 Yn cyfrannu at lygredd sy'n cynhyrchu pwysau fel llygredd dŵr, llygredd tir.<br>2.3 Yn cyfrannu at newid defnydd tir sy'n cynhyrchu pwysau fel rheolaeth annigonol, defnydd tir cystadleuol, dwysáu amaethyddol.<br>2.4 Newid defnydd tir - roedd y tir a droswyd yn dir cnydau yn 0.6 hectar byd-eang y pen (Llywodraeth Cymru, 2015).<br>2.5 Gormodiant uwchlaw'r trothwy byd-eang o 200% (Oxfam, 2020) |
| Demograffig a chymdeithasol-ddiwylliannol | 3. Tir pori - tir sydd ei angen i fagu anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid | 3.1 Yn cyfrif am 6% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br>3.2 Yn cyfrannu at newid defnydd tir sy'n cynhyrchu pwysau fel rheolaeth annigonol, defnydd tir cystadleuol, dwysáu amaethyddol.<br>3.3 Yn cyfrannu at lygredd sy'n cynhyrchu pwysau fel llygredd dŵr, llygredd tir. |
| Economaidd a thechnolegol | 4. Tir adeiledig - tir sydd ei angen ar gyfer tai, adeiladau a seilwaith arall | 4.1 Yn cyfrif am 4% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br>4.2 Yn cyfrannu at newid defnydd tir sy'n cynhyrchu pwysau fel rheolaeth annigonol, defnydd tir cystadleuol, dwysáu amaethyddol. |

| Ysgogwyr i newidiadau anuniongyrchol | Gweithgareddau dynol yn ôl mathau o dir | Ysgogwyr uniongyrchol i newidiadau a phwysau |
|---|---|---|
| Demograffig a chymdeithasol-ddiwylliannol | 5. Tiroedd pysgota - ardal o'r môr sydd ei hangen i gynhyrchu pysgod | 5.1 Yn cyfrif am 3% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br>5.2 Yn cyfrannu at orecsbloetio sy'n cynhyrchu pwysau fel pysgodfeydd anghynaladwy.<br>5.3 Cynaeafwyd 33% o stociau pysgod morol (cwota) o fuddiant y DU yn anghynaladwy (uwchlaw'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf) (Oxfam, 2020) |
| Economaidd a thechnolegol | 6. Coedwigoedd - tir sydd ei angen i gynnal bioamrywiaeth | 6.1 Yn cyfrif am 6% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).<br>6.2 Yn cyfrannu at newid defnydd tir yng Nghymru a gwledydd eraill sy'n cynhyrchu pwysau fel rheolaeth annigonol, defnydd tir cystadleuol, dwysáu amaethyddol ac ati. |

Noder: Mae'r gweithgareddau dynol yn y tabl hwn yn deillio o restr Llywodraeth Cymru o'r mathau o dir sy'n cyfrannu at ôl troed ecolegol Cymru.




Ffigur 2 Ôl-troed byd-eang Cymru yn ôl y math o dir (Llywodraeth Cymru, 2015).

# Cyfleoedd i Weithredu

Mae angen i Gymru leihau ei defnydd trwy wneud y canlynol:

- gwella effeithlonrwydd cynhyrchu
- lleihau lefelau defnydd yng Nghymru
- trawsnewid y mathau o ddefnydd yng Nghymru
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rhyddhau y tu allan i Gymru sy'n cyfrannu at gynhyrchion a ddefnyddir yng Nghymru
- cymryd rhan mewn polisïau rhyngwladol i leihau allyriadau
- ceisio gweithredu gwelliannau cynaliadwy yn y cadwyni cyflenwi byd-eang

# Llyfryddiaeth

Oxfam 2020. Swaffield, L. Egan, D. THE WELSH DOUGHNUT 2020 A framework for environmental sustainability and social justice. Oxfam Cymru. Ar gael yn: https://policy-practice.oxfam.org/resources/the-welsh-doughnut-2020-a-framework-for-environmental-sustainability-and-social-620979/ [Mynediad ym mis Ionawr 2021]

Llywodraeth Cymru 2015. Ecological and Carbon Footprints of Wales, update to 2011. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/ecological-and-carbon-footprint-of-wales-report.pdf [Mynediad ym mis Ionawr 2021]